# JONES, JOHN (1650 - 1727), deon, addysgydd a hynafiaethydd

**Enw:** John Jones
**Dyddiad geni:** 1650
**Dyddiad marw:** 1727
**Rhiant:** Margaret Jones (née Williams)
**Rhiant:** Rowland Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** deon, addysgydd a hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Evan Gilbert Wright

Ganwyd yn Plas Gwyn, Pentraeth, sir Fôn, 2 Mehefin 1650, mab Rowland Jones a Margaret, merch John Williams, Chwaen Issa, Llantrisant, Môn. Ymbriododd yres ei frawd a Paul Panton, yr hynafiaethydd a pherchennog llawysgrifau a drosglwyddwyd i'r Llyfrgell Genedlaethol. Wedi graddio yn 1668 (D.D. 1689 a M.D. 1679; Venn, *Alumni Cantabrigienses*) yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt, derbyniodd urddau eglwysig a chafodd fywoliaeth Rhoscolyn a chapelyddiaethau Llanfair-yn-Neubwll a Llanfihangel-yn-Nhowyn yn 1672. Gwnaed ef yn drysorydd yr eglwys gadeiriol a rheithor Llandecwyn a Llanfihangel-y-Traethau yn 1673, a chafodd Llandegfan yn 1683 ac Aber yn y flwyddyn ddilynol. Ar gymhelliad yr esgob Humphrey Humphreys derbyniodd y ddeoniaeth yn 1689, ynghyd â bywiolaethau Gyffin, Llanfihangel Ysgeifiog, a Llanffinan a gysylltid â'r swydd hon. Cafodd hefyd brebend Llanfair yn esgobaeth Llanelwy yn 1696 a rheithoraeth Llanllechid yn 1699.

Fe'i penodwyd yn ohebydd y S.P.C.K., ac edrychir arno fel arloeswr mawr yr ysgolion elusennol yng Ngogledd Cymru. Sylfaenai a gwaddolai ysgolion yn y plwyfi y daliai gysylltiad â hwy, a threfnai mai yn Gymraeg y dysgid *Catecism* Eglwys Loegr a thestunau eraill. Bu'n foddion i ddosbarthu llyfrau Cymraeg ymhlith ei blwyfolion, a chynorthwyai yn y gwaith o sefydlu llyfrgelloedd plwyfol ac esgobaethol. Yn ei atebion i ymofynion ymweliadol yr esgob ceid gwybodaeth am waddoliadau Ysgol y Friars ym Mangor a'r addysg a gyfrennid ynddi. Cydnebydd Browne Willis y cymorth a gafodd gan y deon, a oedd yn hynafiaethydd medrus, i chwilio allan hynafiaethau eglwys gadeiriol Bangor. Cynnwys ewyllys Dr. John Jones roddion hael i blwyfi neilltuol at addysgu plant tlawd; gwyddom am o leiaf naw o ysgolion a sefydlwyd ganddo neu a elwodd arno. Bu farw (yn ôl ei faen coffa) 27 Hydref 1727; profwyd ei ewyllys (ddyddiedig 10 Mawrth 1719) ar 29 Tachwedd 1727.

## Awdur

**Y Parchedig Ganon Evan Gilbert Wright**, (1903)

## Ffynonellau

Browne Willis, *A survey of the cathedral church of Bangor; and the edifices belonging to it ...* (1721), 70, 129-30, 157

Barber a Lewis, *The history of Friars School, Bangor* (1901), 38-44, 46, 160-3, 173, 176-7

David Jones, *Life and times of Griffith Jones, sometime rector of Llanddowror* (Llundain 1902), 36, 57-8

Edmund McClure (gol.), *A Chapter in English Church History; S.P.C.K. Minutes and [Abstracts of] Correspondence, 1698–1704* (London 1888), 276, 287, 292

*Llawysgrifau Plas Gwyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 80, 84, 85

Thomas Shankland yn *Seren Gomer*, 1902, 272, 300, 306; 1903, 138, 145, 149, 161; 1904, 17, 22-3

Thomas Shankland yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1904-5, 111, 138, 143, 157-64, 167, 180, 182, 193, 216

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733492

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu